

makingsense@home



synhwyraidd i greu cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu synhwyraidd, bod yn greadigol a chwareus ac i chi a'r unigolyn rydych chi'n gofalu amdano/amdani gael llawer o hwyl!

Croeso
i'ch Parsel Synhwyraidd
Rydym ni wedi creu adnoddau ar
gyfer paentio dyfrllyd i
gerddoriaeth.
Dyluniwyd ein syniadau

Paentio dyfrllyd i gerddoriaeth

Cynnwys

Gorchudd bwrdd plastig, Papur, Paent powdwr, Pastelau sialc, Brwsh paent, Pluen, Potel chwistrellu dŵr

Dolen i fwrdd sain gyda cherddoriaeth ar gyfer paentio <http://www.tickyloewe.com/makingsensehome/>

Mae'r gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar fwynhau cerddoriaeth a sain ac ymateb iddynt gyda'r lliwiau rydych chi'n eu dewis a'r marciau rydych chi'n eu gwneud.

Bydd cerddoriaeth gyflym yn gwneud i chi baentio'n wahanol i gerddoriaeth araf – fel dawnsio gyda'ch dwylo ar bapur.

Mae'r gweithgaredd hwn yn wych ar gyfer dau neu ragor o bobl yn rhannu un darn o bapur.

Mae'r chwistrellydd dŵr, y gerddoriaeth, y lliwiau, y brwsh a'r bluen yn synhwyrdd a rhyngweithiol hyd yn oed os nad ydych chi'n gwneud marciau ar y papur!

Y nod yw mwynhau'r broses a'r profiad synhwyrdd, gwneud marciau a defnyddio lliwiau!

Dolen i'r bwrdd sain

<http://www.tickyloewe.com/makingsensehome/>



Dilynwch y ddolen i'n bwrdd sain sydd wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer y gweithgaredd hwn gan y cerddor a'r artist sain Ant Dickinson.

Os yw'n bosib ceisiwch newid eich amgylchedd ar gyfer y gweithgaredd hwn, gan gyfyngu ar seiniau eraill fel y teledu neu'r radio.

Cewch ddewis pa gerddoriaeth fydd yn gyfeiliant i'ch paentio trwy bwysu'r botymau ar y bwrdd sain ar ffôn clyfar, dyfais llechen, gliniadur neu gyfrifiadur.

Cewch newid y gerddoriaeth pryd bynnag rydych chi'n dymuno i newid y ffordd rydych chi'n paentio!



Paentio dyfrllyd i gerddoriaeth

Mae'r pecyn yn cynnwys gorchudd bwrdd plastig gan y bydd y gweithgaredd hwn yn gwneud llanast.

Gwnewch yn siwr eich bod chi'n gwisgo hen ddillad neu ffedogau.

Dewiswch eich cerddoriaeth o'r bwrdd sain i'w chwarae yn y cefndir.

Defnyddiwch y chwistrellydd dŵr i socian y papur yn gyntaf ac yna ddefnyddio'r paent powdwr i greu cefndir dyfrllyd – cewch eu defnyddio fel powdwr neu eu cymysgu gyda dŵr yn gyntaf a'u diferu ar y cefndir gwlyb.

Defnyddiwch eich brwsh, y bluen neu eich dwylo i symud y paent o gwmpas sut bynnag y dymunwch!

Defnyddiwch y pastelau sialc i ychwanegu rhagor o liwiau – mae croeso i chi gael un ym mhob llaw!

Dewiswch liwiau rydych chi'n eu hoffi a symudwch eich dwylo neu'r brwsh ar y papur fel petaech chi'n dawnsio!

Tra rydych chi'n paentio ac unwaith rydych chi wedi gorffen defnyddiwch ffôn symudol i dynnu lluniau agos o rannau o'r gwaith celf.

Mae croeso i chi ddefnyddio eich paent eich hun a deunyddiau eraill i'w hychwanegu at y paentiad.

Dilynwch y ddolen hon i weld paentio i gerddoriaeth yn digwydd! <http://www.tickyloewe.com/makingsensehome/>

Lluniwyd y pecyn hwn gan Ticky Lowe, Cyfarwyddwr Making Sense CIC.

Mae Making Sense yn gwmni budd cymunedol dan arweiniad artist sy'n arbenigo mewn gweithgareddau ac adnoddau synhwyrdd a chreadigol.

Os hoffech chi ganfod rhagor am ein gwaith ewch i www.makingsensecic.org.uk neu gysylltu gyda tickylope@makingsensecic.org.uk

Byddem wrth ein boddau'n gweld lluniau neu ffilmiau ohonoch chi'n cymryd rhan yn y gweithgaredd!
Cofiwch sôn am Makingsensecic os ydych chi'n rhoi rhywbeth ar Facebook!

Llenwch y ffurflen adborth os gwelwch yn dda a'i dychwelyd pan fyddwch chi'n derbyn eich parcel synhwyrdd nesaf.

Canllawiau Diogelwch

Defnyddiwch y gorchudd bwrdd plastig a ddarparwyd i warchod eich bwrdd.

Gwisgwch hen ddillad neu ffedog yn ystod y sesiwn.

Byddwch yn ymwybodol o arwynebau llithrig os yw dŵr yn diferu ar y llawr!

Mae'r paent powdwr a'r pastelau sialc yn golchi, ond nid ydynt yn fwytadwy!

